Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

## Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn

Tachwedd 2019

**Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

**Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth**

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dynodi'r bwriad polisi presennol o ran yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud, neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud, o dan ddarpariaethau'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ("y Bil").

Lluniwyd y Datganiad er mwyn cynorthwyo'r pwyllgorau wrth iddynt graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n mynd gyda'r Bil. Nodir manylion gweithdrefn y Cynulliad sy'n gysylltiedig â phob un o'r pwerau hyn ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn y ddogfen hon.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer llywodraeth leol. Bydd yn cyflawni pecyn sylweddol o ddiwygiadau, gan gynnwys diwygio etholiadol, pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys, uno yn wirfoddol ac ailstrwythuro, cydweithio mewn ffordd fwy cyson ac effeithiol a chynyddu cyfranogiad y cyhoedd o fewn llywodraeth leol.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys cynigion sydd â'r nod o ddiwygio a chryfhau atebolrwydd a pherfformiad llywodraeth leol. Bydd hyn yn eu galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch, o ansawdd uchel ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac ar y cyd â hwy. Bydd y darpariaethau yn y Bil hwn yn symud cynghorau ymhellach tuag at fod yn fwy agored a thryloyw, yn unol â bywyd modern. Bydd aelodau'r cyhoedd yn medru deall mwy am y ffordd y mae cynghorau yn gweithredu, sut y mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut y gallant gymryd mwy o ran yn y broses.

Yn gryno, mae'r Bil yn cynnig:

- Diwygiadau i wella trefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor preswyl cymwys; gwella cyfraddau cofrestru etholwyr; a galluogi prif gyngor i ddewis rhwng systemau pleidleisio 'y cyntaf i'r felin' neu 'pleidlais sengl drosglwyddadwy.
- Pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys.
- Diwygiadau i annog y cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn democratiaeth leol, a gwella tryloywder.
- Darpariaeth yn ymwneud ag arweinyddiaeth prif gynghorau, gan gynnwys annog mwy o amrywiaeth ymysg aelodau gweithrediaethau a sefydlu swydd statudol prif weithredwr.
- Darpariaeth ar gyfer cydweithio mwy cyson a syml drwy gyfrwng 'cyd-bwyllgorau corfforedig'.

- System newydd ar gyfer gwella perfformiad a llywodraethu ar sail hunanasesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid, gan gynnwys cyfuno pwerau cymorth ac ymyrryd Gweinidogion Cymru.
- Pwerau i hwyluso uno gwirfoddol rhwng prif gynghorau neu ailstrwythuro ardal prif gyngor.
- Darpariaethau yn ymwneud â chyllid llywodraeth leol gan gynnwys osgoi ardrethi annomestig a chael gwared ar y pŵer i ddarparu ar gyfer carcharu dyledwyr y dreth gyngor.
- Darpariaethau amrywiol yn ymwneud â phleidleisiau cymunedol, Awdurdodau Tân ac Achub, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y darpariaethau yn berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer | Y Rheswm dros y Pŵer a'i Fwriad o ran Polisi |
|---|---|---|---|
| | **Pwerau'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol** | | |
| 1. | Adran 11(1) | Pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiad o brif ardal yn dilyn penderfyniad gan brif gyngor i newid ei system bleidleisio. | Bydd y Cyfarwyddyd yn rhoi cyfarwyddyd i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol o ran pryd i gyflwyno argymhellion.<br><br>Mae'n bosibl na fydd y trefniadau etholiadol presennol yn gydnaws â darparu'r system bleidleisio y mae'r prif gyngor wedi penderfynu newid iddi, ac os felly bydd angen trefniadau etholiadol newydd. Bydd y Cyfarwyddyd yn pennu dyddiad ar gyfer cyflwyno argymhellion, gan ganiatáu digon o amser i'r trefniadau etholiadol newydd fod yn eu lle erbyn yr etholiadau cyffredin nesaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. | Adran 13(3) | Mae’n diwygio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i alluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi rheolau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. | Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r rheolau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys rheolau ynghylch:<br><br>• Y math o Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) i'w defnyddio os bydd prif gyngor yn dewis mabwysiadu'r system etholiadol hon mewn wardiau aml-aelod; bydd yn cynnwys sut y dylid cynnal y cyfrif yn ogystal â fformat y papur pleidleisio ac ati;<br>• Y gofyniad bod yn rhaid i brif gyngor gyhoeddi, ar ei wefan, ddatganiad ar gyfer pob ymgeisydd sy'n sefyll mewn etholiad llywodraeth leol. Bydd yn cynnwys y rheolau penodol sy'n ymwneud â chynnwys a hyd y datganiad;<br>• Y gofyniad bod ymgeiswyr sy'n sefyll yn "annibynnol" mewn etholiadau llywodraeth leol yn datgan, adeg yr enwebiad, a ydynt wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol ai peidio yn y flwyddyn galendr ddiwethaf; a<br>• Dileu'r gofyniad i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol ddarparu cyfeiriad cartref i’w gyhoeddi ar y papur pleidleisio. Bydd hyn yn cael ei ddisodli gan y gofyniad i ddarparu cyfeiriad swyddogol.<br><br>Bydd y pwerau o dan yr adran hon yn cael eu defnyddio hefyd i gynorthwyo unrhyw newidiadau ychwanegol y bydd eu hangen o ganlyniad i estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | Adran 17(3) | Estyn y pŵer i newid dyddiad arferol etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. | Yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru newid diwrnod arferol etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru er mwyn, er enghraifft, osgoi gwrthdaro ag etholiad cyffredinol y DU. |
| 4. | Adran 18(1) | Pŵer i sefydlu a chynnal cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol. | Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cronfa ddata o wybodaeth am gofrestru etholiadol ar lefel Cymru gyfan. Gall y pŵer nodi gofynion a swyddogaethau cronfa ddata o wybodaeth am gofrestru etholiadol. Rhaid i'r rheoliadau hefyd ddarparu y bydd un o'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn cadw'r gronfa ddata. Bydd sefydlu'r gronfa ddata yn galluogi cynnal cynllun peilot i ddatblygu diwygiadau pellach i'r broses etholiadol. |
| 5. | Adran 22(4) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ragnodi ffurf a chynnwys hysbysiadau o ran cofrestru etholwyr llywodraeth leol yn awtomatig. | Mae’n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ffurf a chynnwys hysbysiadau pan fo Swyddog Cofrestru Etholiadol yn bwriadu cofrestru etholwr yn awtomatig. |
| 6. | Adran 22(5)(c) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ragnodi gweithdrefnau ar gyfer tynnu unigolion oddi ar y gofrestr. | Mae sylwedd y pŵer hwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil. Caiff Swyddog Cofrestru Etholiadol symud person a gofnodir ar y gofrestr yn rhinwedd y darpariaethau cofrestru awtomatig os penderfynir na ddylid cofrestru'r person. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi'r weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn cyn gwneud penderfyniad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7. | Adran 26 | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i brif gyngor neu Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal cynllun peilot. | Ni fydd y Gorchymyn hwn yn cael ei gymhwyso heblaw mewn amgylchiadau lle bo Gweinidogion Cymru yn teimlo y byddai cynllun peilot etholiadol o fudd penodol i etholwyr, ond lle nad oes unrhyw brif gyngor neu swyddog cofrestru wedi cyflwyno cynigion ar gyfer cynllun peilot. Mae'n debygol mai dim ond i nifer fach o brif gynghorau y bydd hyn yn cael ei gymhwyso ar unrhyw adeg. |
| 8. | Adran 27 | Pŵer i roi canllawiau yn gysylltiedig â'r cynllun peilot etholiadol. | Bwriedir i ganllawiau gael eu rhoi os caiff gorchymyn am gynllun peilot ei wneud. Nod y canllawiau fyddai ceisio sicrhau bod y cynlluniau peilot yn cael eu cynnal yn gywir ac yn gyson rhwng awdurdodau lleol. |
| 9. | Atodlen 1, paragraff 4(3) | Pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol. | Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau o natur gyffredinol a allai fod yn gymwys i nifer o adolygiadau, neu i bob un ohonynt, sy'n cael eu cynnal gan y Comisiwn ar adeg benodol neu o fath penodol. Bydd y cyfarwyddydau yn hwyluso'r broses o gymhwyso'r broses adolygu. |
| 10. | Atodlen 1, paragraff 4(5) | Pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i roi'r gorau i gynnal adolygiad cychwynnol. | Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau sydd wedi newid o ran uno neu ailstrwythuro, er enghraifft, penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â darpar uno gwirfoddol. Mewn achos o'r fath, byddai angen i adolygiad cychwynnol y Comisiwn gael ei atal cyn gynted â phosibl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11. | Atodlen 1, paragraff 4(7) | Pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol. | Mae'n bosibl y bydd angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r Comisiwn ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol.<br><br>Gallai'r canllawiau ymdrin â phriodoldeb wardiau aml-aelod, gan gydnabod teneurwydd poblogaeth wledig a pharchu hunaniaeth gymunedol. |
| 12. | Atodlen 1, paragraff 5(3) | Pŵer i Weinidogion Cymru, at ddibenion adolygiad cychwynnol,  i gyfarwyddo prif gyngor ar gyfer ardal sy'n destun adolygiad, neu gyngor ar gyfer cymuned mewn ardal sy'n destun adolygiad, i ddarparu i'r Comisiwn unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol. | Bwriad y pŵer yw sicrhau bod y Comisiwn yn cael ei alluogi i wneud argymhellion ar sail gwybodaeth berthnasol. |
| 13. | Atodlen 1, paragraff 9 | Yn yr amgylchiadau pan fydd y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol wedi cyflwyno argymhellion, pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi effaith i'r trefniadau etholiadol sydd eu hangen ar gyfer cynnal etholiadau cyffredin cyntaf (i) ar gyfer cyngor yr ardal llywodraeth leol newydd a grëwyd drwy reoliadau uno neu ailstrwythuro; neu (ii) ar gyfer cyngor presennol sydd wedi penderfynu newid ei system bleidleisio. | Mae angen y rheoliadau trefniadau etholiadol a wneir gan Weinidogion Cymru er mwyn rhoi effaith i unrhyw drefniadau etholiadol newydd mewn prif gyngor. Heb reoliadau o'r fath, ni allai etholiadau ddigwydd o dan yr amgylchiadau a ragnodir yn (i) neu (ii). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14. | Atodlen 1, paragraff 10 | Yn yr amgylchiadau pan na fydd y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol wedi cyflwyno argymhellion erbyn y terfyn amser angenrheidiol, pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi effaith i'r trefniadau etholiadol sydd eu hangen ar gyfer cynnal etholiadau cyffredin cyntaf (i) ar gyfer cyngor yr ardal llywodraeth leol newydd a grëwyd drwy reoliadau uno neu ailstrwythuro; neu (ii) ar gyfer cyngor presennol sydd wedi penderfynu newid ei system bleidleisio. | Os na fydd y Comisiwn wedi cyflwyno ei adroddiad terfynol gydag argymhellion erbyn y terfyn amser a bennir yn y cyfarwyddyd, caiff Gweinidogion Cymru eu galluogi i wneud rheoliadau trefniadau etholiadol; wrth wneud hynny, gallant ddefnyddio'r wybodaeth y mae'r Comisiwn wedi'i pharatoi neu ei choladu wrth gynnal ei hadolygiad o'r ardal o dan sylw hyd at yr adeg honno.<br>Heb reoliadau o'r fath, ni allai etholiadau ddigwydd o dan yr amgylchiadau a ragnodir yn (i) neu (ii). |
| 15. | Atodlen 1, paragraff 11(1) | Pŵer i Weinidogion Cymru, at ddibenion gwneud rheoliadau trefniadau etholiadol yn dilyn adolygiad cychwynnol, gyfarwyddo prif gyngor ar gyfer ardal sydd dan arolwg neu gyngor ar gyfer cymuned mewn ardal sydd dan arolwg i ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol. | Bwriedir i'r pŵer sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael eu galluogi i wneud rheoliadau trefniadau etholiadol ar sail yr holl wybodaeth berthnasol. Byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau lle nad oedd y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol wedi cyflwyno argymhellion erbyn y terfyn amser gofynnol, a bod angen i Weinidogion Cymru gael gwybodaeth benodol gan y prif gyngor perthnasol i gwblhau'r dasg ar fyrder. |
| | **Pwerau'n ymwneud â phŵer cymhwysedd cyffredinol** | | |
| 16. | Adran 35(1) | Pŵer i ddiwygio, addasu, diddymu, dirymu neu ddatgymhwyso deddfwriaeth bresennol sydd, yn eu barn nhw, yn atal awdurdodau lleol cymhwysol rhag arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, addasu, diddymu, dirymu neu ddatgymhwyso deddfwriaeth bresennol y maent yn ystyried ei bod yn atal neu'n rhwystro awdurdodau lleol cymhwysol rhag arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Ni ellir rhag-weld sut y gallai awdurdodau lleol cymhwysol ddymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol na pha rwystrau deddfwriaethol y gallent eu hwynebu, felly dim ond fel pŵer galluogi y gellir llunio hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17. | Adran 35(2) | Pŵer i leihau neu ddileu unrhyw orgyffwrdd rhwng y pŵer cymhwysedd cyffredinol ac unrhyw bwerau presennol. | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i leihau neu ddileu unrhyw orgyffwrdd rhwng y pŵer cymhwysedd cyffredinol ac unrhyw bwerau presennol. Ni ellir rhag-weld sut y gallai awdurdodau lleol cymhwysol ddymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol na pha rwystrau deddfwriaethol y gallent ddod ar eu traws, felly dim ond fel pŵer galluogi y gellir llunio hyn. |
| 18. | Adran 35(3) | Pŵer i atal awdurdodau lleol cymhwysol rhag defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddibenion lleol. | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i atal awdurdodau lleol cymwys rhag defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddibenion penodedig. Ni ellir rhag-weld sut y gallai awdurdodau lleol cymhwysol ddymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol a gallai fod amgylchiadau lle bydd angen cyfyngu ar y pŵer cyffredinol, felly dim ond fel pŵer galluogi y gellir llunio hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19. | Adrannau 35(4) a (5) | Pŵer i roi amodau ar arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. | Mae’n galluogi Gweinidogion Cymru i roi amodau ynghlwm wrth arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Ni ellir rhag-weld sut y gallai awdurdodau lleol cymhwysol ddymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol a gallai fod amgylchiadau lle y byddai gofyn gosod amodau ar arfer y pŵer cyffredinol. Felly, caiff hwn ei lunio, yn rhannol, fel pŵer galluogi cyffredinol. Fodd bynnag, mae is-adran (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu bod dibyniaeth awdurdod cymhwysol ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol i godi tâl am ddarparu gwasanaeth dewisol neu i wneud pethau at ddiben masnachol yn ddarostyngedig i amodau penodol. Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn disodli pwerau presennol awdurdodau lleol i godi tâl neu i fasnachu drwy gwmni yn Rhan 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae arfer y pŵer i fasnachu o dan Ran 8 yn ddarostyngedig i ofynion Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006. Mae’r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gymeradwyo achos busnes ac i sicrhau bod costau llawn llety, nwyddau, gwasanaethau, staff neu unrhyw beth arall y mae awdurdod yn ei gyflenwi i gwmni sy'n arfer ei swyddogaethau yn cael eu hadennill yn llawn. Mae'r gofynion hyn yn sicrhau bod asesiad priodol yn cael ei gynnal o risgiau a chanlyniadau masnachu drwy gwmni, a bydd adennill y costau'n llawn yn osgoi llurgunio annheg yn y farchnad. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud y pŵer i fasnachu o dan y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn ddarostyngedig i amodau tebyg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20. | Adran 37(3) | Pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi cymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster y mae'n rhaid i glerc cyngor cymuned ei gael i fodloni'r ail amod cymhwystra yn gysylltiedig â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. | Mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i'r clerc fod â chymhwyster er mwyn i'r cyngor fod yn gymwys, ond mae natur y cymwysterau yn newid yn rheolaidd a byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol yn aml pe bai'r manylion yn cael eu rhagnodi yn y Bil. Byddai'r rheoliadau'n cael eu defnyddio i bennu manylion y cymwysterau perthnasol. |
| 21. | Adrannau 42(1) a (3) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r amodau'n ymwneud â chymhwystra cynghorau cymuned i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol os oes angen. | Nodir yr amodau yn y Bil. Fodd bynnag, ni ellir rhag-weld pa mor gyfyngol neu fel arall y bydd y meini prawf cymhwysedd a gallai fod yn briodol diwygio, dileu neu ychwanegu amodau cymhwystra yn y dyfodol. |
| 22. | Adran 43 | Pŵer i roi canllawiau ar arfer swyddogaethau o ran cynghorau cymuned cymwys. | Mae'n bosibl y bydd angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gynghorau cymuned cymwys i'w cynorthwyo i arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol.<br><br>Gallai'r canllawiau ymdrin â phriodoldeb y cymwysterau a ragnodir at ddibenion yr amod cymhwystra; ac, ar ôl i drefniadau gael eu gwneud gan ddibynnu ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol, maent yn peidio â bod yn gymwys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Pwerau’n ymwneud â Hyrwyddo Mynediad at Lywodraeth Leol** | | |
| 23. | Adran 51 | Pŵer i roi canllawiau’n ymwneud â hyrwyddo mynediad at lywodraeth leol. | Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i brif gynghorau i'w cynorthwyo i ddeall eu rhwymedigaethau mewn perthynas â hybu mynediad at lywodraeth leol.<br><br>Gallai'r canllawiau gynnwys gwybodaeth fanylach am y ffyrdd y gellid bwrw ymlaen â mynediad ac ymgysylltu, y safonau mynediad a ddisgwylir a sut y gellir monitro / mesur gwelliant. |
| 24. | Adran 53(4) | Pŵer i bennu achosion nad yw’r ddyletswydd i ddarlledu yn electronig yn berthnasol iddynt. | Mae sylwedd y ddyletswydd hon, sef bod yn rhaid i brif gyngor roi mesurau ar waith i ganiatáu darlledu electronig yn achos trafodion sy’n agored i'r cyhoedd, wedi'i nodi'n glir ar wyneb y Bil. Byddai'r Rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso’r ddyletswydd ddarlledu ar gyfer mathau ychwanegol o gyfarfod. Efallai y bydd angen i hyn ddigwydd yn rhesymol aml a gellid ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag amgylchiadau lle mae achos cryf dros ddatgymhwyso’r ddyletswydd ddarlledu ar gyfer rhai mathau o gyfarfodydd. |
| 25. | Adran 53(5) | Pŵer i roi canllawiau i brif gynghorau yn ymwneud â darlledu trafodion cyfarfod yn electronig. | Mae'n bosibl y bydd angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i brif gynghorau yn ymwneud â'r gofyniad iddynt ddarlledu trafodion cyfarfod yn electronig.<br><br>Gellid rhoi canllawiau, er enghraifft, ar gaffael gwasanaethau gweddarlledu a storio gweddarllediadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26. | Adran 53(7) | Pŵer i sicrhau bod achosion yn cael eu darlledu’n electronig. | Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar brif gynghorau, ond gellid ei hystyried yn briodol, yn y dyfodol, gosod dyletswyddau tebyg ar awdurdodau tân ac achub neu awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi hynny i ddigwydd. Mae'r pŵer yn cynnwys y gallu i ddiwygio neu ddiddymu Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 neu ran 5A o Ddeddf 1972. |
| 27. | Adran 55 | Pŵer i roi canllawiau ar gyfranogi mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned. | Mae’n bosibl y bydd angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gynghorau cymuned mewn perthynas â chymryd rhan mewn cyfarfodydd.<br><br>Gallai’r canllawiau ymdrin â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau, a’r hyn sy’n cael ei ystyried yn effeithiol o ran cynnal cyfarfod. |
| 28. | Adran 57(2) | Pŵer i roi canllawiau ar adroddiadau blynyddol cynghorau cymuned. | Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gynghorau cymuned mewn perthynas ag adroddiadau blynyddol.<br><br>Gallai’r canllawiau ymdrin ag agweddau penodol ar flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau yn ystod y flwyddyn honno; a sut mae cynghorau cymuned wedi ymgysylltu â'u cymunedau a sut maent yn bwriadu gwneud hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 29. | Atodlen 4, paragraff 6 | Pŵer i ddiddymu darpariaethau a fewnosodir gan y Bil hwn sy’n darparu nad yw gofynion newydd i gyhoeddi hysbysiadau am gyfarfodydd ar wefan cyngor yn berthnasol i awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Byddai’r diddymu yn golygu bod y gofynion i gyhoeddi hysbysiadau ar wefan yn berthnasol i’r cyrff hyn. | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu darpariaethau yn y Bil at ddiben gwneud awdurdodau Parciau Cenedlaethol a/neu awdurdodau tân ac achub yn ddarostyngedig i ofyniad i gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig. |
| 30. | Atodlen 4, paragraff 10(3) | Pŵer i ddiwygio paragraff 17 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 at ddiben ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig. | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd 1995 at ddiben gwneud awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ddarostyngedig i ofyniad i gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig. |
| 31. | Atodlen 4, paragraff 10(4) | Pŵer i ddiwygio adran 232 o Ddeddf 1972 at ddiben ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig. | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio darpariaethau yn Neddf 1972 at ddiben gwneud awdurdodau tân ac achub yn ddarostyngedig i ofyniad i gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig. |
| | **Pwerau’n ymwneud â Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol** | | |
| 32. | Adran 60(5) | Pŵer i roi canllawiau ynghylch rheoli perfformiad prif weithredwr prif gyngor. | Mae angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gynorthwyo prif gynghorau i reoli perfformiad eu prif weithredwr.<br><br>Gallai’r canllawiau gynnwys gwybodaeth fanylach am y safonau perfformiad gofynnol, y broses fonitro a meysydd lle mae cynghorau o'r farn bod angen mwy o eglurder. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 33. | Adran 65 | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau mewn cysylltiad â gwella amrywiaeth. | Mae angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gynorthwyo prif gynghorau i wella amrywiaeth.<br><br>Gallai’r canllawiau gynnwys esboniad manylach am y meini prawf i'w defnyddio wrth fynd i'r afael ag amrywiaeth, sut y caiff y gwelliant ei fonitro a gwybodaeth am gynlluniau penodol i'w cyflwyno. |
| 34. | Adran 67(2) | Pŵer i roi canllawiau i arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o grwpiau gwleidyddol. | Bydd y canllawiau'n cynorthwyo arweinwyr grwpiau gwleidyddol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r swyddogaethau a osodir arnynt mewn perthynas â hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel. |
| 35. | Adran 67(3) | Pŵer i wneud rheoliadau ynglŷn â’r amgylchiadau pan ddylai aelodau o brif gyngor yng Nghymru gael eu trin fel pe baent yn gyfystyr â grŵp gwleidyddol, a phan ddylid trin aelod o grŵp gwleidyddol fel arweinydd y grŵp. | Mae sylwedd y dyletswyddau a osodir ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad wedi'i nodi'n llawn ar wyneb y Bil. Mae'r Bil yn nodi'n glir pwy y bwriedir i’r darpariaethau hyn effeithio arnynt, ond mae’r diffiniad manwl o’r categorïau hyn o bobl yn debygol o newid dros amser, a rheoliadau yw’r ffordd fwyaf priodol o ymdrin ag ef.<br><br>Byddai'r Rheoliadau hyn yn caniatáu ar gyfer diwygio diffiniadau manwl o'r categorïau o bobl y byddai'r darpariaethau hyn yn effeithio arnynt. Mae hyn yn debygol o newid dros amser a bydd angen gwneud mân newidiadau ad hoc. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 36. | Adran 72(7) | Pŵer i roi canllawiau ar gynlluniau hyfforddi cynghorau cymuned. | Mae angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gynorthwyo cynghorau cymuned i ddeall y gofynion mewn perthynas â chwblhau cynlluniau hyfforddi.<br><br>Gallai'r canllawiau, er enghraifft, ddarparu gwybodaeth ar sut y gellid cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant a sut y gellid llunio a gosod y cynllun hyfforddi. |
| 37. | Atodlen 8, paragraff 3 | Mae'n mewnosod adran 69F newydd i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Pennod 3 o'r Ddeddf honno er mwyn gwneud darpariaethau pellach neu wahanol ynghylch ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i achosion honedig o fynd yn groes i god ymddygiad aelodau llywodraeth leol. | Mae'r ddarpariaeth hon yn rhan o'r broses o ddiddymu ac ailddatgan, ar ffurf ddiwygiedig, y ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n bodoli eisoes yn adrannau 69 a 70 o Ddeddf 2000 er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn fwy hygyrch ac eglur. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i amgylchiadau sy'n newid pe bai'r Ombwdsmon yn wynebu problemau ymarferol wrth arfer y pwerau ymchwilio a nodir yn y Bil. |
| | **Pwerau'n ymwneud â Chydweithio gan Brif Gynghorau** | | |
| 38. | Adran 74 | Pŵer i roi canllawiau i brif gynghorau ar arfer eu swyddogaethau drwy gydweithio â phrif gyngor arall. | Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hybu cydweithio rhwng awdurdodau lleol, trefniadau ar gyfer rhoi'r gorau i gydweithio neu efallai ddechrau cydweithio, a'r ffordd y mae cydweithio'n cael ei lywodraethu. Bydd y canllawiau'n cefnogi ymdrechion llywodraeth leol i ddatblygu trefniadau gwirfoddol a chod ymarfer gwirfoddol. Y bwriad fyddai rhoi canllawiau ddim ond os na fyddai ymgais wirfoddol yn effeithiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 39. | Adran 77 | Pŵer i wneud rheoliadau i sefydlu corff corfforedig, lle gwnaed cais cyd-bwyllgor corfforedig, i arfer swyddogaethau a nodir yn y rheoliadau ynglŷn â dwy neu ragor o brif ardaloedd. | Bydd rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn creu corff corfforedig newydd ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodedig prif gynghorau. Bydd cyd-bwyllgor corfforedig yn darparu mecanwaith cydlynol i lywodraeth leol ar gyfer cyflawni swyddogaethau ar y cyd. Bydd rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig yn cael eu cyd-ddatblygu â llywodraeth leol. |
| 40. | Adran 79 | Pŵer i wneud rheoliadau i sefydlu corff corfforedig, lle na wnaed cais gan awdurdodau lleol, er mwyn arfer swyddogaethau a nodir yn y rheoliadau mewn perthynas â dwy neu ragor o ardaloedd prif gyngor. | Bydd rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn creu corff corfforedig newydd ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodedig prif gynghorau. Bydd y pŵer i greu'r cyd-bwyllgor corfforedig, lle nad oes cais wedi'i wneud, yn cael ei gyfyngu i swyddogaethau'r meysydd a nodir yn y Bil. Lle y bo'n bosibl, bydd rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig yn cael eu cyd-ddatblygu â llywodraeth leol. |
| 41. | Adran 82 | Pŵer i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cydweithio (gan gynnwys rhoi swyddogaeth i gyd-bwyllgor corfforedig neu dynnu swyddogaeth oddi arno). | Bydd rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn rhoi swyddogaethau prif gyngor ychwanegol i gyd-bwyllgor corfforedig (ar ôl ei sefydlu). Caiff rheoliadau hefyd ddiwygio neu ddileu swyddogaethau (gan gynnwys diddymu cyd-bwyllgor corfforedig). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 42. | Adran 83 | Pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, greu darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed o ran rheoliadau cyd-bwyllgorau (penodol). | Pwerau technegol / gweithdrefnol fydd y rhain i raddau helaeth ac ni fyddant yn cael eu defnyddio ond lle bo angen, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd rheoliadau ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig yn y rhan hon. |
| 43. | Adran 85 | Pŵer i gyfarwyddo prif gyngor neu gyd-bwyllgor corfforedig i ddarparu unrhyw wybodaeth sy’n briodol at ddiben rheoliadau o dan Ran 5, neu mewn cysylltiad â hwy. | Bwriedir i'r pŵer sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr wybodaeth sy'n ofynnol at ddibenion rheoliadau o dan Ran 5 neu mewn cysylltiad â hwy. |
| 44. | Adran 86 | Pŵer i roi canllawiau i brif gynghorau a chyd-bwyllgorau corfforedig at ddibenion Penodau 3 i 5 o Ran 5. | Diben y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol a gweithredu'r ddeddfwriaeth neu'r rheoliadau.<br><br>Mae'n debygol y bydd y canllawiau’n ymwneud yn bennaf â phroses a gallent gynnwys canllawiau ar sut y gallai prif gynghorau wneud cais am greu cyd-bwyllgor corfforedig ac, os na nodir hynny mewn rheoliadau, canllawiau ar faterion cyfansoddiadol, materion gweithlu neu faterion technegol eraill sy'n ymwneud â chyd-bwyllgor corfforedig. |
| | **Pwerau’n ymwneud â Pherfformiad a Llywodraethu Prif Gynghorau** | | |
| 45. | Adran 88(3) | Pŵer i roi canllawiau i brif gynghorau am y gofynion perfformiad ac am arfer eu swyddogaethau o dan Ran 6 o’r Bil. | Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i gynorthwyo prif gynghorau i ddeall y trefniadau perfformiad a llywodraethu newydd yn y Bil. Gallai hyn gynnwys canllawiau ynghylch yr asesiadau panel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 46. | Adran 93 | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch penodi paneli i asesu’r graddau y mae’r cyngor yn bodloni’r gofynion perfformio. | Gallai rheoliadau o dan yr adran hon nodi manylion gweithdrefnol ynghylch cynrychiolaeth ar y panel a thâl ariannol, pe bai gofyn cael y rhain i ategu unrhyw ganllawiau a roddir o dan adran 88(3). |
| 47. | Adran 102 | Pŵer i gyfarwyddo prif gyngor i ddarparu cefnogaeth a chymorth i brif gyngor arall fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn briodol. | Bwriad y pŵer yw galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo prif gyngor i ddarparu cymorth i brif gyngor arall. Mae hyn yn ymwneud i raddau helaeth â chefnogi’r broses o wella perfformiad cynghorau unigol. |
| 48. | Adrannau 103 i 106 | Pŵer i roi cyfarwyddyd ymyrryd o dan adran 103 4,105 neu 106 o ran prif gyngor. Mae ymyriadau’n cynnwys cyfarwyddyd i gydweithio, gyda chefnogaeth a chymorth yn cael eu darparu gan Weinidogion Cymru neu brif gyngor arall; cyfarwyddyd i gymryd, peidio â chymryd, neu roi’r gorau i gymryd, cam penodol; a chyfarwyddyd y dylai swyddogaeth benodol prif gyngor gael ei harfer gan Weinidogion Cymru, neu berson a enwebwyd ganddynt. | Bwriad y pwerau yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu ymyrryd os ydynt o'r farn nad yw prif gyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, neu ei bod yn bosibl nad yw'n gwneud hynny. Mae'r pŵer hwn yn ymwneud i raddau helaeth â chefnogi’r broses o wella perfformiad cynghorau unigol.<br><br>Cyn arfer y pŵer hwn, rhaid i Weinidogion Cymru:<br>(a) rhoi cymorth neu geisio rhoi cymorth i'r Cyngor<br>(b) ymgynghori â'r personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol<br>(c) hysbysu'r Cyngor eu bod yn bwriadu rhoi'r cyfarwyddyd.<br><br>Nid yw'r gofynion hyn yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen rhoi'r cyfarwyddyd ar frys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 49. | Adran 106(3) | Pŵer i gymhwyso unrhyw ddarpariaeth statudol berthnasol (wedi'i haddasu neu heb ei haddasu), neu i ddatgymhwyso unrhyw ddarpariaeth statudol, at ddibenion ei chymhwysiad mewn perthynas â swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan yr adran hon bod swyddogaethau penodol prif gyngor i'w harfer gan Weinidogion Cymru neu rywun a enwebwyd ganddynt. | Pŵer technegol/trefniadol ei natur yw hwn, gan na chaiff ei ddefnyddio ond lle y bo angen at ddibenion sicrhau effeithiolrwydd cyfarwyddyd o dan yr adran hon.<br><br>Bydd yr amgylchiadau lle mae ymyriad yn digwydd yn wahanol ym mhob achos ac felly ni ellir rhag-weld pa ddarpariaeth statudol y gallai fod ei hangen. |
| 50. | Adran 108 | Pŵer i ychwanegu at restrau o bersonau y mae'n rhaid anfon adroddiadau penodol atynt, gan gynnwys adroddiadau hunanasesu, adroddiad asesu perfformiad panel, adroddiad ar arolygiad arbennig, etc. | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu person at y rhestr pe bai'r person a restrir yn newid ei enw neu'n cael ei ddiddymu, neu i ychwanegu corff newydd neu gorff sy'n bodoli'n barod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| l51. | Adran 109 | Pŵer Gweinidogion Cymru:<br>(1) i wneud darpariaeth sy'n diwygio, diddymu, dirymu, addasu neu ddatgymhwyso deddfiadau sy'n rhwystro prif gynghorau rhag cydymffurfio â gofynion Rhan 6; a/neu<br>(2) i roi pwerau newydd i brif gynghorau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n fuddiol i ganiatáu neu hwyluso cydymffurfio â gofynion Rhan 6 gan brif gyngor. | Bydd y pwerau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, diddymu, datgymhwyso neu addasu darpariaethau Deddfau'r Cynulliad neu Senedd y DU er mwyn atal Deddfau o'r fath rhag rhwystro prif gyngor rhag cydymffurfio â'i ddyletswyddau yn y bennod hon.<br><br>Bydd y pwerau hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi unrhyw bŵer angenrheidiol i brif gyngor, prif gynghorau neu ddisgrifiad penodol o brif gynghorau er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth â'r bennod hon gan brif gynghorau.<br><br>Bydd natur y cymorth a ddarperir, a'r amgylchiadau lle mae ymyriad yn digwydd, yn naturiol yn wahanol ym mhob achos er mwyn ymateb i'r materion unigol a phenodol a wynebir gan brif gyngor, a rhaid i'r pŵer fod yn ddigon eang i fodloni pob amgylchiad unigol fel y mae'n codi. |
| 52. | Adran 110 | Pŵer i ddarparu canllawiau i berson sydd â swyddogaethau o dan Ran 6 o'r Bil (ac eithrio prif gynghorau ac Archwilydd Cyffredinol Cymru), ynghylch arfer y swyddogaethau hynny. | Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i bersonau i ddeall a gweithredu eu swyddogaethau o dan y trefniadau perfformiad a llywodraethu newydd yn y Bil.<br><br>Gallai'r canllawiau ymdrin, er enghraifft, ag achos lle mae person / personau yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth i brif gyngor neu'n gweithredu fel rhan o gyfarwyddyd ymyrryd o fewn y drefn perfformiad a llywodraethu.<br><br>Caiff y canllawiau eu hadolygu'n achlysurol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 53. | Adran 119(3) | Pŵer Gweinidogion Cymru i dynnu neu ychwanegu rheoleiddwyr newydd a/neu swyddogaethau newydd at ddibenion y dyletswyddau cydlynu rhwng Archwilydd Cenedlaethol Cymru a’r rheoleiddwyr perthnasol. | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu neu dynnu rheoleiddwyr perthnasol yn ôl yr angen at ddibenion cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr, sy'n ofynnol o dan adran 118. |
| | **Pwerau’n ymwneud ag Uno neu Ailstrwythuro Prif Ardaloedd** | | |
| 54. | Adran 122 | Pŵer i roi canllawiau ar geisiadau i uno. | Mae angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gynorthwyo prif gynghorau â materion sy'n ymwneud â gwneud cais i uno'n wirfoddol. Bydd y canllawiau’n hysbysu ac yn hwyluso gwaith prif gynghorau wrth iddynt baratoi cais ar gyfer trefniadau uno gwirfoddol.<br><br>Gallai'r canllawiau gynnwys cyngor ar nodi achos busnes ar gyfer uno, mynd i'r afael â phryderon pobl leol a rhanddeiliaid a graddau'r cydgyfeirio â ffiniau strategol eraill. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 55. | Adran 123 | Pŵer i wneud rheoliadau uno gwirfoddol ar gyfer creu prif ardal newydd drwy uno, i greu prif ardal newydd, prif ardaloedd dau neu ragor o brif gynghorau. | Bydd rheoliadau yn rhoi effaith i uno gwirfoddol ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn ceisiadau sydd, yn eu barn hwy, yn bodloni'r egwyddorion a'r canllawiau a geir yn y canllawiau ar uno gwirfoddol.<br><br>Bydd rheoliadau, ymysg pethau eraill, yn sefydlu'r brif ardal a'r cyngor newydd ar gyfer yr ardal honno. Byddant yn ymdrin ag ystod o faterion ymarferol gan gynnwys sefydlu awdurdodau cysgodol, amseru etholiadau a darpariaeth ganlyniadol etc. i roi effaith lawn i'r uno.<br><br>Caiff rheoliadau eu teilwra i amgylchiadau penodol pob uniad penodol, er enghraifft wrth ddynodi statws y brif ardal newydd fel un ai sir neu fwrdeistref sirol. |
| 56. | Adran 124(11) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau cysgodol a gweithrediaethau ynglŷn ag arfer swyddogaethau wrth baratoi ar gyfer sefydlu prif gynghorau newydd. | Bydd angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gynghorau cysgodol a gweithrediaethau cysgodol ar arfer eu swyddogaethau wrth baratoi ar gyfer sefydlu prif gynghorau newydd.<br><br>Gallai Gweinidogion Cymru roi canllawiau ar swyddogaethau'r cyngor a'r weithrediaeth gysgodol, megis amseru penodiadau uwch ar gyfer y prif gyngor newydd, pennu lleoliad y pencadlys, cynlluniau gwasanaeth a datganiadau polisi tâl. |
| 57. | Adran 126(4) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i brif gyngor ynglŷn â phenodi swyddog canlyniadau. | Ni ddefnyddir y pŵer oni bai bod cynghorau sy'n uno wedi methu â phenodi swyddog canlyniadau ar gyfer yr etholiadau cyntaf i'r cyngor newydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 58. | Adran 127(2) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo prif gyngor i gymryd camau i hwyluso trosglwyddo staff, eiddo etc. yn effeithiol mewn achos o uno. | Ni ddefnyddir y pŵer oni bai bod cynghorau sy'n uno yn methu â chymryd camau effeithiol neu amserol i hwyluso trosglwyddo staff, eiddo etc. yn effeithiol i gyngor newydd sydd i'w sefydlu o dan reoliadau uno sydd eisoes wedi'u cymeradwyo. |
| 59. | Adran 130 | Pŵer i wneud rheoliadau ailstrwythuro ar gyfer diddymu prif ardal llywodraeth leol bresennol a'i chyngor. Gall y Rheoliadau ddarparu ar gyfer trosglwyddo rhan neu rannau o'r ardal a ddiddymwyd i brif ardaloedd llywodraeth leol eraill a / neu ar gyfer creu prif ardal llywodraeth leol newydd drwy uno rhan neu'r cyfan o ardal a ddiddymwyd â phrif ardal neu ardaloedd llywodraeth leol arall/eraill. | Os bodlonir yr amodau a nodir yn adran 128, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi effaith i ddiddymu prif ardal llywodraeth leol bresennol a'i gyngor, ac i'r broses o ailstrwythuro'r ardal honno.<br><br>Gallai'r ailstrwythuro fod ar y ffurfiau a nodir yn adran 131 a gallai rheoliadau ailstrwythuro ddarparu ar gyfer trosglwyddo rhannau penodedig o'r ardal sy'n cael ei dileu i brif ardaloedd eraill a/nei greu prif ardal newydd.<br><br>Bydd angen i'r Rheoliadau ymdrin hefyd â'r ystod o faterion ymarferol cysylltiedig gan gynnwys sefydlu awdurdodau cysgodol, amseru'r etholiadau, darpariaeth ganlyniadol etc. i roi effaith lawn i'r ailstrwythuro.<br><br>Bydd rheoliadau'n cael eu teilwra i amgylchiadau penodol pob ailstrwythuro penodol, er enghraifft, os sefydlir prif ardal newydd bydd angen i'r rheoliadau ddynodi statws yr ardal honno fel naill ai sir neu fwrdeistref sirol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 60. | Atodlen 10, paragraffau 3(1)(c) a (2) | Pŵer i gyfarwyddo pwyllgor pontio i roi cyngor ac argymhellion i gynghorau sy'n uno a chynghorau cysgodol ar faterion eraill yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru (paragraff (1)(c)) ac i Weinidogion Cymru (paragraff 2). | Byddai'r cyfarwyddyd o dan baragraff (1)(c) yn cael ei ddefnyddio i'w gwneud yn ofynnol i bwyllgor pontio ystyried mater sy'n berthnasol i'r uno dan sylw y gallai'r pwyllgor pontio fod wedi'i fethu neu ei anwybyddu. Byddai'r cyfarwyddyd o dan baragraff (2) yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru y gallai fod ei hangen i lywio penderfyniad sy'n berthnasol i'r uno dan sylw. |
| 61. | Atodlen 10, paragraff 4(1) | Pŵer i gyfarwyddo cynghorau sy'n ailstrwythuro o sefydlu pwyllgor pontio. | Mewn achosion blaenorol o ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru, bu gofyn sefydlu cyd-bwyllgorau pontio statudol i ystyried a chynghori prif gynghorau oedd yn uno ar faterion pontio. Mae profiad blaenorol yn dangos bod y pwyllgorau hyn wedi gwneud gwaith gwerthfawr, ond y gallent fod wedi bod yn fwy defnyddiol pe baent wedi'u sefydlu ar sail statudol yn gynharach yn y broses.<br><br>Bydd y cyfarwyddyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymhwyso'r gofynion mewn perthynas â phwyllgorau pontio, gan eu teilwra i fodloni amgylchiadau penodol yr ardaloedd a gynhwysir yn yr ailstrwythuro arfaethedig.<br><br>Rôl y pwyllgor pontio yw paratoi ar gyfer sefydlu'r cynghorau newydd drwy ymgymryd â gweithgareddau paratoadol hanfodol, yn ogystal ag ystyried unrhyw beth arall y mae'r pwyllgorau yn ei ystyried yn hwylus er mwyn sicrhau y bydd y prif gyngor newydd yn gallu gweithredu'n effeithiol o'r diwrnod y mae'n ysgwyddo'r ystod lawn o gyfrifoldebau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 62. | Atodlen 10, paragraff 7(1) | Pŵer i gyfarwyddo pwyllgor pontio i arfer ei swyddogaethau. | Defnyddir y cyfarwyddyd i'w gwneud yn ofynnol i bwyllgor pontio arfer ei swyddogaethau pan ystyrir bod y pwyllgor pontio wedi bod yn esgeulus neu'n araf wrth arfer cyfrifoldeb penodol. |
| 63. | Atodlen 10, paragraff 7(2) | Pŵer i roi canllawiau i bwyllgor pontio ynglyn ag arfer ei swyddogaethau. | Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau ar yr ystod o weithgareddau paratoadol y mae angen i gynghorau sy'n uno ymgymryd â hwy er mwyn sicrhau y gall y prif gyngor newydd weithredu'n llawn o'r diwrnod y mae'n ysgwyddo'r ystod lawn o gyfrifoldebau.<br><br>Byddai'r canllawiau'n ymwneud i raddau helaeth â'r mathau a'r broses o weithgareddau paratoadol yr ystyrir y dylai'r pwyllgorau eu cyflawni, a gallai gynnwys: cynlluniau darparu gwasanaeth, argymhellion ar gyfer datganiadau polisi tâl, ystyriaethau o ran y Gymraeg, cytuno ar gyllidebau cyntaf, pennu cyfraddau'r dreth gyngor ac anfon biliau'r dreth gyngor. |
| 64. | Adran 132(8) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau cysgodol a gweithrediaethau ynglŷn ag arfer swyddogaethau wrth baratoi ar gyfer sefydlu prif gynghorau newydd. | Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau ar yr ystod o weithgareddau paratoadol y mae angen i gynghorau cysgodol fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau y gall y prif gyngor newydd weithredu'n llawn o'r diwrnod y mae'n ysgwyddo'r ystod lawn o gyfrifoldebau.<br><br>Gallai'r canllawiau gynnwys cyngor ar faterion megis amseru penodiadau uwch ar gyfer y prif gyngor newydd, pennu lleoliad y pencadlys, llunio cynlluniau gwasanaeth a chytuno ar ddatganiadau polisi tâl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 65. | Atodlen 11, paragraff 1 | Pŵer i gyfarwyddo na chaiff awdurdod sy’n uno neu’n ailstrwythuro ymgymryd â gweithgarwch cyfyngedig heb ystyried barn a chael cydsyniad person neu bersonau penodol. | Gellir defnyddio'r cyfarwyddyd i sefydlu cyfundrefn drafodion gyda gweithdrefn barn a chydsyniad, fel y disgrifir yn Atodlen 11, er mwyn gwarchod rhag y posibilrwydd o ymddygiad niweidiol a negyddol gan brif gynghorau sy’n uno neu’n ailstrwythuro. Os yw'r cynghorau'n cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol, efallai na fydd angen i Weinidogion Cymru gyfarwyddo, ond os nad yw cynghorau'n gweithio gyda'i gilydd, bydd gofyn i Weinidogion Cymru gael y gallu i weithredu'n gyflym o fewn y fframwaith a ddarperir gan y Atodlen hon i atal ymddygiad niweidiol. |
| 66. | Atodlen 11, paragraff 1(3) | Pŵer i gyfarwyddo cyngor sy’n uno neu’n ailstrwythuro i benodi neu ddynodi person i swydd gyfyngedig i gydymffurfio â gofynion penodol ynglŷn â’r penodiad neu’r dynodiad. | Gellir defnyddio'r cyfarwyddyd i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau sy’n uno neu’n ailstrwythuro gydymffurfio â gofynion penodol o ran penodi/dynodi i swyddi cyfyngedig, fel y nodir yn Atodlen 11, ac felly mae'n gwarchod rhag y posibilrwydd o ymddygiad niweidiol s negyddol gan gynghorau sy’n uno neu’n ailstrwythuro. Os yw'r cynghorau'n cydweithredu â'r broses, efallai na fydd angen i Weinidogion Cymru gyfarwyddo, ond os nad yw cynghorau'n cydweithio bydd gofyn i Weinidogion Cymru gael y gallu i weithredu'n gyflym o fewn y fframwaith a ddarperir gan yr Atodlen hon i atal ymddygiad niweidiol. |
| 67. | Atodlen 11, paragraff 6(8) | Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio’r symiau trothwy i adlewyrchu newid mewn amgylchiadau. | Mae Gweinidogion Cymru o’r farn fod y gwerthoedd ar gyfer pob math o drafodiad ar wyneb y Bil yn briodol. Fodd bynnag, mae’r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddisodli’r gwerthoedd hyn â rhai gwahanol petaent o’r farn fod hynny’n briodol er mwyn ymateb i newid mewn amgylchiadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 68. | Atodlen 11, faparagraff 9(1) | Pŵer i roi canllawiau i  gynghorau sy’n uno neu’n ailstrwythuro ac unrhyw bersonau a nodir yn y cyfarwyddyd o dan baragraff 1 o Atodlen 11. | Mae’n bosibl y bydd angen i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gynghorau sy’n uno neu’n ailstrwythuro, er enghraifft ynghylch sefydlu gweithdrefn agored a thryloyw ar gyfer ceisio barn neu gydsyniad. |
| 69. | Adran 133(2)(d) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i bersonau a nodwyd mewn rheoliadau ailstrwythuro at ddibenion sy’n gysylltiedig ag ailstrwythuro. | Bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio i roi effaith i reoliadau ailstrwythuro. Gallai’r cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r person (y mae'n rhaid ei bennu yn y rheoliadau ailstrwythuro) gymryd camau penodol i hwyluso'r ailstrwythuro a gymeradwywyd drwy gyfrwng y rheoliadau. Mae'r person a bennir felly yn debygol o fod yn swyddog i un o'r cynghorau sy’n ailstrwythuro (er enghraifft y prif archifydd) a gallai'r weithred ymwneud â'r paratoadau y mae angen eu gwneud ar gyfer yr ailstrwythuro.<br><br>Mae'n debygol mai’r unig adeg pan fyddai angen i'r pŵer gael ei arfer fyddai pe na bai cyngor sy’n ailstrwythuro yn cymryd camau i weithredu'r ailstrwythuro. |
| 70. | Adran 134(4) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo prif gyngor i gymryd camau i hwyluso trosglwyddo staff, eiddo etc. yn effeithiol mewn achos o ailstrwythuro. | Ni ddefnyddir y pŵer oni bai bod y cynghorau sy’n alstrwythuro yn methu â chymryd camau effeithiol i hwyluso trosglwyddo staff, eiddo etc. yn effeithiol i gyngor arall os ceir ailstrwythuro y darperir ar ei gyfer o dan reoliadau sydd wedi’u cymeradwyo eisoes. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 71. | Adran 137(1) | Pŵer i gyfarwyddo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiad cychwynnol ar ôl derbyn cais am uno gwirfoddol neu lle y bo Gweinidogion Cymru wedi rhoi rhybudd o dan adran 128(6) eu bod yn bwriadu gwneud rheoliadau ailstrwythuro mewn perthynas â phrif ardaloedd penodol. | Rôl y Comisiwn yw sicrhau bod pob ardal llywodraeth leol yng Nghymru yn cadw'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif ardaloedd dan adolygiad.<br>O dan y ddeddfwriaeth bresennol, dim ond arolygon o brif ardaloedd a sefydlwyd eisoes drwy statud y gall y Comisiwn Ffiniau eu cynnal. Bydd adran 137 (1) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad cychwynnol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal newydd arfaethedig a / neu'r ardaloedd hynny a gaiff eu trosglwyddo i brif ardal arall yn rhinwedd ailstrwythuro arfaethedig. |
| 72. | Adran 137(6) | Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ailosod y dyddiad dechrau ar gyfer cyfnod adolygu trefniadau etholiadol 10 mlynedd nesaf y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ar ôl gwneud rheoliadau uno neu ailstrwythuro. | Mae'r broses o ailosod y dyddiad dechrau yn fanylyn technegol y gall fod ei angen i sicrhau bod rhaglen waith y Comisiwn yn caniatáu ar gyfer adolygiadau cyfnodol o unrhyw gynghorau newydd a sefydlir drwy reoliadau uno neu ailstrwythuro. Ni fydd dim ond ailosod y dyddiad dechrau ar gyfer adolygiad cyfnodol yn effeithio ar egwyddor na chymhwysiad y darpariaethau yn adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 73. | Adran 138 | Pŵer i gyfarwyddo cyngor sy'n uno neu'n ailstrwythuro na ddylai gymryd unrhyw gamau pellach i newid y math o weithrediaeth sydd ganddo. | Bydd y cyfarwyddyd yn lleol ei natur ac yn berthnasol i brif gynghorau penodol. Mae'n ymwneud â gohirio unrhyw weithdrefn sydd ar waith neu a allai gael ei chychwyn mewn cyngor sy'n uno neu'n ailstrwythuro. Mae'n bosibl y byddai'r broses gwbl leol o newid trefniadau gweithrediaeth yn cael ei goddiweddyd gan yr uno neu'r ailstrwythuro sy'n cael ei ystyried yn rhywle arall ac ni fyddai'r tarfu a fyddai'n deillio o newid trefniadau gweithrediaeth yn ddefnyddiol yng nghyd-destun yr uno neu'r ailstrwythuro. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r uno neu'r ailstrwythuro dan sylw, byddai'r cyfyngiad ar newid trefniadau gweithrediaeth yn cael ei godi. |
| 74. | Adran 139 | Pŵer i gyfarwyddo prif gyngor (A) i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru, ynghyd ag unrhyw wybodaeth sy'n briodol i drosglwyddo swyddogaethau o gyngor A i brif gyngor arall (B) neu brif gyngor newydd ac i gyngor B ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y maent yn ei hystyried yn briodol at y dibenion a grybwyllwyd. | Ni fydd y cyfarwyddyd ond yn cael ei ddefnyddio os na fydd prif gyngor yn darparu gwybodaeth benodedig i Weinidogion Cymru a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am gais i uno'n wirfoddol neu am ailstrwythuro posibl. Mae arfer y pŵer yn dibynnu'n llwyr ar p'un a yw cynghorau unigol yn cymryd rhan adeiladol yn y broses o uno neu ailstrwythuro ai peidio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 75. | Adran 140 | Pŵer i gyfarwyddo prif gyngor (A) i ddarparu gwybodaeth i unrhyw gorff perthnasol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth sy’n briodol i drosglwyddo swyddogaethau o gyngor A i brif gyngor arall (B) neu brif gyngor newydd ac i gyngor B ddarparu i gyngor A neu gorff perthnasol unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol at y dibenion a grybwyllwyd. | Ni fydd y cyfarwyddyd ond yn cael ei ddefnyddio os na fydd prif gyngor yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill i rannu gwybodaeth benodedig a fyddai'n hwyluso neu'n paratoi'n briodol ar gyfer uno gwirfoddol neu ad-drefnu. Mae arfer y pŵer yn dibynnu'n llwyr ar p'un a yw cynghorau unigol yn cymryd rhan adeiladol wrth arfer yr uno neu'r ailstrwythuro. |
| 76. | Adran 141 | Pŵer i gyfarwyddo Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â chynghorau cysgodol a phrif gynghorau newydd. | Bydd Adran 141 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Panel i wneud penderfyniadau ar gyfer taliadau mewn perthynas ag aelodau o gynghorau cysgodol ac ar gyfer aelodau o'r prif gynghorau newydd yn barod ar gyfer eu bodolaeth.<br><br>Diben y cyfarwyddyd yw dod â chynghorau cysgodol a chynghorau sydd i’w sefydlu gan reoliadau uno neu ailstrwythuro o fewn cwmpas y drefn ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr a sefydlwyd gan ran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Heb gyfarwyddyd o'r fath, byddai cynghorau cysgodol a chynghorau sydd newydd eu sefydlu (o ran y penderfyniadau ar gyfer blwyddyn gyntaf eu bodolaeth fel cyngor wedi'i freinio'n llawn) y tu allan i'r gyfundrefn honno. |
| 77. | Adran 143 | Pŵer i roi canllawiau mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. | Gallai fod yn angenrheidiol i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r panel sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau.<br><br>Gallai canllawiau, er enghraifft, ymhelaethu ar amgylchiadau aelodau o gynghorau cysgodol a oedd hefyd yn aelodau o gynghorau presennol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 78. | Adran 145(2) | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed. | Bydd rheoliadau o'r fath yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth fanwl a fydd yn rhoi effaith i uno neu i ailstrwythuro y darperir ar ei gyfer drwy reoliadau o dan adrannau 123 a 130 yn y drefn honno. Gallai rheoliadau o'r fath ymwneud â throsglwyddo staff a cymhwyso darpariaethau perthnasol Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 fel y darperir ar eu cyfer yn adran 145(8). |
| 79. | Adran 145(3) | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n gymwys yn gyffredinol er mwyn gwneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn perthynas â rheoliadau uno neu ailstrwythuro. | Bydd rheoliadau o'r fath yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau manwl a allai fod yn gymwys i'r cyfan neu sawl achos o uno ac ailstrwythuro y darparwyd ar eu cyfer gan reoliadau a wnaed o dan adrannau 123 a 130 yn y drefn honno. Gallai darpariaeth o'r fath ymwneud â rheoliadau ar gyfer sefydlu a threfnu ymddiriedolwyr siarter, y gallai fod eu hangen er mwyn parhau i arfer dyletswyddau sifig a etifeddwyd oddi wrth gynghorau a oedd yn cael eu diddymu fel rhan o uno neu ailstrwythuro. |
| 80. | Adran 145(10) | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau uno neu ailstrwythuro, rheoliadau o dan adran 145(2) neu adran 145(3) ac ar gyfer rheoliadau uno neu ailstrwythuro i wneud diwygiad neu ddirymiad o’r fath. | Bydd rheoliadau o'r fath yn galluogi Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth i wneud y cyfryw ddiwygiad neu ddirymiad ag y bo angen os bydd amgylchiadau uno neu ailstrwythuro yn esblygu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Pwerau'n ymwneud ag ardrethu annomestig a'r dreth gyngor** | | |
| 81. | Adran 149(2) a 149(8) | Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth o ran hysbysiadau a roddir ar bersonau mewn perthynas ag Ardrethi Annomestig. | Bydd Adran 149 o'r Bil yn estyn i awdurdodau bilio yng Nghymru y pwerau sydd gan swyddogion prisio ar hyn o bryd i ofyn am wybodaeth gan bersonau mewn perthynas ag Ardrethi Annomestig. Gall rheoliadau o dan adran 149 (2) bennu disgrifiad o bersonau ychwanegol y mae'n rhaid iddynt roi gwybodaeth i awdurdod bilio i'w gynorthwyo i weinyddu ardrethi annomestig. Byddai rheoliadau o dan adran 149(8) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch yr hysbysiadau a gyflwynwyd. Y bwriad polisi yw gwella'r gweinyddu a'r gydymffurfiaeth er mwyn cynorthwyo awdurdodau bilio i fynd i'r afael â'r lefel hysbys o dwyll ac osgoi Ardrethi Annomestig. Mae'r Bil yn diwygio pŵer sy'n bodoli eisoes. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 82. | Adran 150 | Pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i bersonau gyflenwi gwybodaeth i awdurdodau bilio o ran Ardrethi Annomestig. | Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru (drwy reoliadau) i osod dyletswydd gyfreithiol ar bersonau penodedig i ddarparu gwybodaeth benodedig i awdurdodau bilio. Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan awdurdodau bilio yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i fynd i'r afael â lefel hysbys o dwyll ac osgoi Ardrethi Annomestig. Byddai'r ddarpariaeth yn rhoi'r cyfrifoldeb ar drethdalwyr ac eraill i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarparant i awdurdodau bilio at ddibenion ardrethi annomestig yn gywir ac yn amserol. Bydd y rheoliadau, er enghraifft, yn nodi natur y newidiadau mewn amgylchiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r awdurdodau bilio, a pha wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu a phryd, a phwy fydd yn cael ei roi o dan y ddyletswydd. Mae'r rheoliadau hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r personau hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau dalu cosb gyda hawliau apelio cysylltiedig. |
| 83. | Adran 152 | Pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi ffigurau B ac C (mesurau chwyddiant yw’r rhain) ar gyfer y lluosydd ardrethi annomestig yn barhaol. Mae’n diwygio’r rheoliadau presennol o dan Atodlen 7 o Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. | Bydd Rheoliadau'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y ffigur mynegai pe byddai amgylchiadau'n newid. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Pwerau'n ymweud â rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru** | | |
| 84. | Adran 156(6) a (7) | Pŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio, dileu neu ychwanegu rheoleiddwyr a/neu swyddogaethau yn y tabl yn yr adran hon, at ddibenion rhannu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru, Archwilydd Cenedlaethol Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn cynnwys pŵer i ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad o ganlyniad i, neu at ddibenion, rhoi effaith lawn i unrhyw ddiwygiadau a wneir i'r tabl yn yr adran hon. | Cyn belled ag o bo'r amodau a nodir yn is-adran (8) yn cael eu bodloni, mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu, dileu neu ddiwygio cofnodion yn y tabl yn yr adran hon.<br><br>Y diben yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio'r tabl i ychwanegu sefydliadau sy'n bodoli eisoes a/neu i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth ynghylch y rheoleiddwyr perthnasol, Gweinidogion Cymru neu Archwilydd Cyffredinol Cymru a allai effeithio ar y gofynion rhannu gwybodaeth yn yr adran hon.<br><br>Mae'r pŵer hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddiwygiad i'r tabl yn yr adran hon, i ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad o ganlyniad i ddiwygio'r tabl. Mae'r pwerau yn y rhan hon yn ddigon eang er mwyn gallu sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu cynnal effaith y darpariaethau rhannu gwybodaeth yn yr adran hon os bydd unrhyw newidiadau i'r rhai a enwir yn y tabl neu yn eu swyddogaethau perthnasol, neu ar gyfer creu unrhyw reoleiddwyr a/neu swyddogaethau perthnasol ychwanegol yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Pwerau’n ymwneud â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru** | | |
| 85. | Adran 159(5) | Pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynglŷn â phenodi ei brif weithredwr. | Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau ynghylch y broses sydd i'w mabwysiadu wrth benodi prif weithredwr.<br><br>Bydd y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar swyddogaethau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wrth benodi prif weithredwr, y safonau sy'n gymwys ar gyfer y penodiad a gwybodaeth fanylach am y amgylchiadau lle y byddai Gweinidogion Cymru yn penodi prif weithredwr yn y dyfodol. |
| | **Pwerau’n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru** | | |
| 86. | Adran 163 | Pŵer i’w gwneud yn ofynnol i awdurdod tân ac achub yng Nghymru greu cynllun o ran arfer swyddogaethau’r awdurdod, a gosod gofynion yn gysylltiedig â chynllun o’r fath. | Bydd y pŵer yn caniatáu i drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gael eu halinio â'r Fframwaith Cenedlaethol nesaf ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub (y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn 2021), a fersiynau pellach o'r fframwaith hwnnw yn y dyfodol. |
| | **Pwerau’n ymwneud â chynnal pleidleisiau llywodraethu cymunedol** | | |
| 87. | Atodlen 12, paragraff 6(5) | Pŵer i wneud darpariaethau ynghylch cynnal pleidleisiau llywodraethu cymunedol. | Bydd y pŵer yn galluogi i drefniadau gael eu rhoi ar waith i hwyluso pleidleisiau llywodraethu cymunedol.<br><br>Gellid defnyddio'r Rheoliadau i nodi trefniadau manylach ynghylch y safonau a’r dull gweithredu ar gyfer pleidleisiau cymunedol. |